TAIR

# MARWNAD,

ER

COFFADWRIAETH

AM DRI O

WEINIDOGION.

I. *DAFYDD THOMAS*,
o'r *Sgybyr*, yn Sir Benfro.

II. *TIMOTHY THOMAS*,
o *Felindref Shenkin*, yn
Sir Gaerfyrddin.

III. *DAFYDD THOMAS*,
o *Ben-Boyr* yn yr un Sir. 1784.

*Gan* DAFYDD JONES.

TREFECCA:
Argraphwyd yn y Flwyddyn, MDCCLXXXV.

# *MARWNAD,*

ER

## COFFADWRIAETH

AM

## *DAFYDD THOMAS.*

1 RHYW Newyddion tra goſidus,
'Rwyf fi'n glywed ſwya'o hyd;
Fod fy hên Gyfeillion anwyl,
Bron a'm gadael yma'u gyd:
Eu hynnill hwy a'm colled innau,
Sy'n terfyſgu'm hyſpryd gwan,
Ac yn creu rhyw ddwſn hiraeth,
Am gael bellach dd'od i'r lan.

2 Dyma driſtwch toſt a galar,
Yn ddiweddar ddaeth i mi;
Sef bod rhai o'm Ffryns anwyla',
Wedi diangc i'r Wlad frŷ:
Y mae galar yma iſod,
Ond llawenydd yn y Nef,
Am fod yno Dri yn rhagor,
O'i Genhadon ffyddlon Ef.

3 *Dafydd Thomas*, ti ddihangeiſt,
O'r lle mae gelynion fil;
Ag ſy'n rhwyſtro'r Pererinion,
Gadw ar y Llwybr cul:
Boreu têg, cannol-ddydd tywyll
'Gefaiſt yma i dy ran;
Dy brydnawn a ddaeth yn oleu,
Goleu cyn dy dd'od i'r lan.

Collais

4 Collais Frawd, a chollais Gyfaill,
  O'r ffyddlonaf Ddyn a ga'd;
Dyn a brofodd rym y 'Storom,
  Dyn a ganwyd yn y Gwa'd;
Dyn a fedrai gyd-ymdeimlo,
  A rhai clwyfus ar y llawr;
Dyn a fedrai arwain Israel,
  Yma yn y cystudd mawr.

5 'Roedd rhyw bleser yn ei Eiriau;
  'Roedd rhyw ddiliau ar ei Fîn;
Mwy cysurus oedd ei 'Madrodd,
  I'r rhai gwan nâ'r melus wîn:
Yr oedd miloedd maith o berlau,
  Yn ei Ddoniau ef yn un;
Ac 'ro'ent oll yn pen-derfynu,
  Am y Duwdod yn y Dyn.

6 Gwybod 'roedd am fannau geirwon,
  Embyd yn y ffordd y sydd;
Gwybod dyfnder Edifeirwch,
  A chyfreithlon dd'od yn rhydd:
Pwy gymmwysach oedd i ddywedyd,
  Am Faddeuant nag efe?
O! na b'asai'i lais e'n cyrraedd,
  O'r Gorllewin faith i'r Dê.

7 Ond nid ydyw Plant y Nefoedd,
  Ddim heb frychau heb eu rhî;
Ac nid ydyw'r rhai Perffeithiaf,
  Welir ar ein daear ni;
Heb gael profi llawer archoll,
  Llawer cwymp, a llawer briw;
Cyndyn gorph yr hên Farwolaeth,
  'N dilyn yma tra f'om byw.

8 Ond cawn weled diben hollol,
  Ar bob gelyn cyn b'o hîr;



Derfydd

Derfydd galar, derfydd griddfan,
Yma yn yr anial dîr:
Calon galed, ysbryd cyfan,
Byd a chnawd, a diawl ynghyd,
Y mae'r oriau'n d'od i fynu,
Ceir rhoi ffarwel i chwi gyd.

9 Caned Nef, a chaned daear,
Am fod IESU'n madde' bai,
Ag a welir yn rhŷ fynych,
Yma yn ei anwyl rai:
Nid yw Ef yn gwel'd anwiredd,
Byth yn Jacob er ei faint;
Ac ni wêl Ef drosedd Israel,
F'enaid byth rhyfedda'r fraint.

10 '*Sgybyr*, '*Sgybyr*, tost yw'r colled,
Collwyd yno ffyddlon Ffrynd!
Dirion Weddw paid ag wylo,
Er i'th Brïod anwyl fyn'd;
Ei Gorph sy'n isel yn *Nhre Letter*,
Ond ei Enaid yn y Ne;
Ti gai wel'd y tawel Foreu,
'Gael cyfarfod âg efe.

11 Blant ymddifaid cym'rwch rybydd,
Cawsoch lawer rhybydd dwys;
Hynny ganwaith gyd â dagrau,
Ac nid oeddynt ddim heb Bwys:
Pwy a ŵyr na welir oriau,
Ac y deuant oll i dre;
Darfu bellach byth gael Addysg,
Nag un Cyngor ganddo 'fe.

12 * Peraidd *Jones* oedd y diweddaf,
Glywodd e'n cyhoeddi 'ma's

* Mr. *Morris Jones*, oedd yn Pregethu yng *Nghile*.

Mewn

Mewn rhyw hwyl nefolaidd hyfryd,
Haeddiant y *Messia* a'i Ras:
Yn yr Odfa fe ddaeth angau,
Ac a drawodd Dduwiol Ddyn;
Er fod rhai o lai gwasanaeth,
Yno'n sefyll wrth ei glyn.

13 Ffarwel *Dafydd* dros ychydig,
Arnaf fi di ge'st y blaen;
Gloyw'r aethost trwy'r Iorddonen,
Er gofidiau mawr a mân:
Nid oedd neb a allasai'th rwystro,
Nid oedd oriau i ti'n hwy;
Ond fe ro'dd dy ymadawiad,
Do i lawer ddwfn glwy.

14 Mae'r *Tŷ Coch*, a *Ffynnon Henry*,
Ac mae *Horeb* heddyw'n brudd;
O waith iddynt golli'r Udgorn,
Ddoi a'u hyspryd caeth yn rhydd:
Yr un modd yn Nhre *Caerfyrddin*,
Y mae llawer heddyw'n drist;
Addfwyn *Dasies* sydd mewn dagrau,
Am i Angau ladd fath Dyst.

15 Melus iawn, ac Awdurdodol,
Llawn o Sylwedd, ac o Rym;
Gyd â Phwys a Chalon ddrylliog,
Etto'i eiriau fyddai'n Llym:
Yr oedd ganddo fil o droion,
Rhai dieithr iawn o'r blaen,—
Nes bai'r galon oer yn toddi,
Yno Ngwrês y Nefol Dân.

DIWEDD.

# M A R W N A D,

E R

COFFADWRIAETH

AM

# TIMOTHY THOMAS.

1 BETH yw'r Newydd trwm galarus,
  Arall ag a ddaeth i ma's?
Colli un o'r rhai Duwiolaf,
  Dyn âg Yſpryd, Dyn â Gras;
Dyn a wydde am awelon,
  Peraidd hyfryd Canaan dîr;
Dyn a fedrai 'nabod cyflwr,
  Dyn 'arferai ddweud y Gwir.

2 *Timothëus* ti'n gadewaiſt,
  Dihengaiſt i'r Ardaloedd frŷ;
O'r *Felindre*'r aethoſt allan,
  O! mor fawr ein colled ni:
Rhowd dy Gorph ym Mynwent *Genarth*,
  D'Enaid aeth i dir ei Gwlad,
At ei Ffrynd, ac at ei Phrïod,
  At ei Duw, ac at ei Thad.

3 *Tim.* medd un, a *Thim.* medd arall,
  Yn fy nglustiau fwya'o hyd;
O anwyl-ddyn fe'n gadawodd,
  Ac 'aeth i Drag'wyddol Fyd!
Ni wnaem Fonument o'r gwycha,
  I goffa'i Enw pe bae lês,
A rho'em mewn Llythrennau auraidd,
  Ei Rinweddau ef yn rhês.

Ond

4 Ond ni raid rhoi dim fath wagedd,
Ar Gredadyn fel efe;
'Fe ga's Enw mwy rhagorol,
Gan ei Frenin yn y Ne:
Y Garreg wen a'r Enw newydd,
'Gafodd yma gyd â ni;
Dyna pa'm y mae 'fe'n canu,
'Nawr o flaen yr Orfedd frŷ.

5 Wrth gofio yr amferau melus,
Ag a brofais gyd â thi,
Lawer tro'n y Caftell newydd,
Mae fy nagrau'n dod yn llî;
Sôn am yr odfauon hyfryd,
'Gawfom yn y dyrus fyd,
Sydd yn ennyn tân o gariad,
Yn fy yfpryd inne o hyd.

6 Yr un llygaid, yr un oleu,
Oeddym yma bob rhyw bryd;
Ar y Gair ac ar Athrawiaeth,
Ac ar Haeddiant Iesu ynghyd:
Ti ddihengaift i'r Wlad Berffaith;
Gwell Difinydd wyt yn awr,
Na neb dynion mwya'u Doniau,
Welir yma ar y llawr.

7 Nid mor enwog yn y Pulput,
Nid mor helaeth oedd ei ddawn;
Yr ychydig a ddywedai,
Oedd i'r Plant fel Syppiau Grawn:
Mewn *Society* neillduol,
Dyna'r man yr oedd ei Le;
Doeth a Llym, a mwyn a goleu,
Dyna'r lle difgleiriau 'fe.

8 Chwilie'i ma's bob math o gyflwr,
Fe gynghore'i geifio Sail,

A chael

A chael grym y Iachawdwriaeth,
Sydd yn Haeddiant ADDA'r ail:
Yſpryd Drylliog fyth fe'i carai,
Yſpryd Deddſol fe'i caſâi;
Ac fe roddai Law a Chalon,
I'r rhai fydde'n Llawenhau.

9 Od oes yna ddewis Lleoedd,
Gwn pa Ardal yr wyt ti;
Gyd â rhai a ganodd uwcha,
Yma am Haeddiant IESU cu;
Gyd â'r Gwr a wnaeth y Salmau,
Gyd â'r clôff, nid clôff yn awr;
Gyd â'r Plant ddaeth i Gaerſalem,
Un-waith gyd â'u HARGLWYDD mawr.

10 Yr oedd marw i ti'n Elw,
Fe fu Angau i ti'n Ffrynd,
Am fod ei ddychrynllyd golyn,
Ar Galfaria gwedi myn'd;
Tynnwyd yno gan fy ARGLWYDD,
Pan ddioddefodd angau loes,
Y Prydnawn yr holltodd creigiau,
Ac y trôdd yr Haul yn nôs.

11 O! Mor Ddedwydd wyt ti'r awr hon,
Waith cael myn'd o'r byd i ma's,
A dihengyd rhag y rhyfel,
A phob rhyw elynion câs;
A chael d'od i dîr y bywyd,
I gael Telyn yn dy law,
A chael dechreu Cân heb derfyn,
Yn yr Ardal dawel draw.

12 Y mae'r holl ofidiau iſod,
Yn ddieithr i ti gyd;
Nid oes neb fydd yna'n gwybod,
Beth ſydd yma yn y byd;

Ninnau

Ninnau etto yn y Cyſtudd,
  Tithau wedi myn'd yn rhydd;
Rho'iſt ffarwel i wlad y galar,
  Ffarwel mwyach yſpryd prudd.

13 Boreu darfu ef â'i Orchwyl,
  Buan daith ei waeth i ben;
Daeth yn Addfed cyn Cynheuaf,
  I gael d'od tu fewn i'r Llen;
At ei Arch-Offeiriad Ffyddlon,
  Awdwr Iachawdwriaeth rad;
Yn lle 'mborthi ar y Manna,
  I gael Bwytta o ŷd y Wlad.

14 Arfaeth ddaeth a'th oriau'i fynu,
  I adael pechadurus fyd,
A dy demtiodd fil o weithiau,
  Ac a drïodd ddwyn dy fryd:
Ceiſiaiſt lynu wrth greadur,
  Fel dy hunan ar y llawr,
Ond gwell coelbren a ddaeth i ti,
  Cael bod gyd â'th ARGLWYDD mawr.

15 Ninnau bellach ſychwn ddagrau,
  A dechreuwn Lawenhau,
Am it' gael y ſath ddihangſa,
  O wlad goſid, a gwlad gwae;
Yn y *Graig* y gwelir heddyw,
  Ddynion ffyddlon yn eu gwraidd,
Ag a Borthant y ffyddloniaid,
  Ac Edrychant ar y Praidd.

DIWEDD.

# MARWNAD,

ER

COFFADWRIAETH

AM

## DAFYDD THOMAS.

1 Y Mae Ergyd ar ol Ergyd,
  Yn fy nghyro i lawr o hyd;
*Argl-wydd, dyro nerth i ddiodde,*
  *Pob peth yma yn y byd:*
Derfydd dioddef ymhen 'chydig,
  Ffarwel glywed newydd prudd;
Ond mi gâf fel cawſant hwythe,
  O'r carchar-dŷ fyn'd yn rhydd.

2 Plwyf *Pen-Boyr* mawr yw dy golled,
  Dylit heddyw fod yn brudd,
Am it' golli o *Lwyn-y-Neuadd*,
  Un o'r Cedyrn yn y ffydd:
Mawr Ddifinydd dwys Sylweddol,
  Awdurdodol oedd efe;
Mwyn a melus ei Athrawiaeth,
  Sef Athrawiaeth bur y Ne.

3 Mae'r *Pant-teg*, y mae *Llan-dyſul*,
  Heddyw oll yn wyneb driſt,
Yn galaru waith eu colled,
  Am fath ffyddlon Was i GRIST;
A dereiddiai i ddyfnderoedd,
  Mawrion y Cyfammod Gras,
Ac a ddygai Bethau allan,
  Ag oedd hyfryd iawn eu blas.

4 Bwyd i'r crŷf fe roddodd ganwaith,
  Wedi gael ef gan ei DDUW;
Llaeth i'r gwan fe rodde eilwaith,
Ac fe rwymai'r yſpryd briw:
Fel Offeryn gan ei ARGLWYDD,
  D'od a wnae a'r Caeth yn rhydd,
A rhai'n eiſtedd mewn tywyllwch,
  A gaent weled goleu'r Dydd.

Llawer

5 Llawer ga's y fraint o'i wrando,
Gyd â phleser a mwynhâd;
(O'r fath bethau mawr a ddywedai,
Am Athrawiaeth bur y Gwa'd!)
IESU a'i Haeddiant oedd ei Destyn,
Dyna'r Testyn gore'i ma's;
Pan ddiflaso pob peth arall,
Bydd i hwnnw gadw'i flas.

6 Ond ni's cafodd ef Ddihengyd,
Heb gymmylau duon cas,
Saethau satan sy'n wastadol,
'N erbyn Etifeddion gras;
Diolch am y Balm o Gilead,
Sy'n Iachau archollion fil,
Ac a roddir yn yr anial,
I ni gan y Ddraig a'i hil.

7 *Iago Thomas* ble mae'r 'sgrifen, *
Werthfawr a 'sgrifenodd ef?
Y mae'r Argraffwasg yn galw,
Am gael hon ag uchel lef—
Honno a rydd gywir hanes,
Fel y purwyd ef trwy dân,
Fel na raid i'm doniau byrion
Innau ymhellach, fyn'd ymlaen,

8 Tost yw'r golled sydd ynghymru,
Fry o'r Gogledd oêr i'r De;
Ar ol Dynion o'r fath ddefnydd,
yn ddiweddar aeth i Dre;
O'r fath alwad a'r fath wylo,
Sydd o Fôn i Benfro fras,
Am gael clywed llawer rhagor,
Yn Cyhoeddi'r gwir i ma's.

9 Gwir a wnelo i'r rhai egwan,
Gadarn sefyll ar eu traed;
Ac a ddelo â'r rhai duon,
I gael eu cannu yn y Gwaed;
Ac a wnelo i'r Cyndynaf,
Dd'od yn ufudd dan y Iau;

Ac

* *Glywais iddo ef Ysgrifenu rhyw beth o'i brofiad am waith Duw ar ei Enaid, a bod hynny gyd â Mr.* James Thomas, *o* Rôs-yr-ychen.

Ac i fod yn un â'r Teulu,
Sydd a'u plefer yn parhau.

10 Collwyd tri o fwyn Fugeiliaid,
Ag a Borthai'r Defaid man
A Iachufol Air y Bywyd,
Ac â Nerth yr Yfpryd Glan;
Ond mae hyn yn codi 'nghalon
Am fod gennym etto rai,
Ag a Dywys y Trueiniaid,
At y Ffynnon fydd heb drai.

11 Hên Genhadon IESU codwch,
A'r rhai Ieuaingc yr un modd,
Ac Udgenwch yn yr Udgyrn
Arian gloyw maes ar g'oedd;
Nes i lawr gael teyrnas ang nghrift,
A chael Crefydd yn ei grym,
Fel yr oedd hi ar y cyntaf,
Oni tê ni thal hi ddim.

12 Hwy a aethant i'r Orphwysfa,
Ninnau etto 'ngrym y tân,
Ac er maint y mwg a'r Bwlets,
D'od yr ydym yn y blaen;
Am fod Capten Iachawdwriaeth,
Gyd â ni ar faes y gwaed;
Dyna pa'm, er gwaetha Uffern,
'Rym ni'n fefyll ar ein traed.

13 *Richards* d'wed pa fodd y galleft,
Sefyll wrth y galar Dai?
A phregethu'n hŷ mewn Angladd,
Tri o dy anwylaf rai;
„ Am fod grym yn d'od o'r Nefoedd,
A bod Nerth yn ol y dydd;
Ac y mae'n rhyw blefer dywedyd,
Am yr rhai fy'n cadw'r ffydd. "

DIWEDD.